

# GWEITHREDU STRATEGAETHAU TWF CYDADFEROL MEWN SYSTEMAU BÎFF


## Beth yw Twf Cydadferol?

Mae twf cydadferol i'w weld ymysg gwartheg bîff lle gwelir twf cyflym yn dilyn cyfnod o fwydo cyfyngedig.

Yn ystod misoedd y gaeaf, os bydd gwartheg yn cael eu rhoi ar ddiet cyfyngedig, bydd eu metaboledd yn arafu'n naturiol i gadw egni. Trwy fynd ati'n strategol i leihau dwysedd egni porthiant yn ystod y gaeaf (sef y cyfnod drytaf o ran bwydo), mae'n bosibl y gallai ffermwyr arbed costau.

Yn dilyn y cyfnod hwn, pan fyddant yn dychwelyd i ddiet o ansawdd uwch, bydd twf yr anifeiliaid hyn yn cyflymu i wneud iawn am y cyfyngiad blaenorol.

Mae'r twf cyflymach hwn yn golygu eu bod yn defnyddio porthiant yn fwy effeithlon, gan olygu eu bod yn trosi mwy o borthiant yn gyhyrau.



Ffynhonnell: Teagasc, 2020



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



## Canllaw cam wrth gam:

- **PWYSAU TARGED:** Mae'r strategaeth hon yn fwyaf effeithiol ar gyfer gwartheg dros 150kg o bwysau byw. Gall brîd, oedran a rhyw'r gwartheg ddylanwadu ar eu capasiti ar gyfer twf cydadferol.

»» Mesurwch bwysau eich stoc i ganfod y gwartheg sy'n bodloni'r meini prawf

- **CYFNOD CYFYNGU:** Mae'r cyfyngiad twf cychwynnol yn dylanwadu ar raddfa'r twf cydadferol. Fodd bynnag, mae cyfyngu'n ormodol ar dwf yn gallu effeithio'n negyddol ar iechyd, lles a pherfformiad cyffredinol anifeiliaid.

»» Dadansoddwch eich silwair a thrafodwch eich opsiynau ar gyfer dognau'r gaeaf gydag ymgynghorydd annibynnol a'ch milfeddyg

»» Anelwch at sicrhau cynnydd o 0.5-0.6kg y dydd ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod bwydo cyfyngedig. Gall hyn helpu i sicrhau'r ymateb cydadferol delfrydol yn ddiweddarach.

»» Monitrowch enillion pwysau byw dyddiol yn rheolaidd, ac ail-edrychwch ar y dogn os nad yw targedau enillion pwysau byw dyddiol yn cael eu cyrraedd

- **PORTHANT O ANSAWDD UCHEL:** Wrth bontio i'r cyfnod twf cydadferol, sicrhewch fynediad at borthiant o ansawdd uchel megis glaswellt neu silwair o ansawdd uchel.

»» Monitrowch dwf glaswellt yn y gwanwyn i ddyrannu porfa ffres i ateb galw'r stoc

## Cyfeiriadau:

- **Teagasc:** *Genomic selection for compensatory growth in beef cattle, 2020*
- **Journal of Agricultural Science:** *Growth and development in beef cattle, 2009*
- **Fane Valley:** *Maximise Compensatory Growth This Spring, 2021*

